BRITISH COUNCIL

thames festival trust

# rivers of the world



River Seine by Shona Watt

## Pecyn addysg

https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/rivers-world
http://www.riversoftheworld.org

# Cyflwyniad

Mae gan afonydd ffordd o swyno pobl. Drwy sefyll ar lannau un o afonydd mawr y byd, gallwch ddal i deimlo'r rhyfeddod a fynegodd Wordsworth dros ddwy ganrif yn ôl, wrth wylio afon Tafwys yn llifo drwy Lundain gyda'r wawr. Bu Afonydd y Byd, sef prosiect celf ac addysg blaenllaw Thames Festival Trust a gyflwynir mewn partneriaeth â'r British Council, yn meithrin y brwdfrydedd hwn ac yn ysbrydoli disgyblion ac athrawon mewn gwledydd ledled y byd ers 2006.

Mae'r prosiect yn galluogi pobl ifanc i archwilio eu hamgylchedd lleol a'i ddathlu, dysgu am ddiwylliannau eraill ac ymgysylltu â materion byd-eang. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd ardderchog i ddisgyblion weithio gydag artistiaid proffesiynol talentog i greu darnau arbennig o gelf i'w harddangos yn gyhoeddus yn Llundain ac mewn dinasoedd eraill ledled y byd.

Mae'r pecyn adnoddau addysg hwn yn ehangu cyrhaeddiad y prosiect i nifer sylweddol uwch o ysgolion ac yn darparu cyfoeth o weithgareddau trawsgwricwlaidd cyffrous i ddisgyblion rhwng 7 ac 14 oed. Fe'i cynlluniwyd i ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth, i helpu eich disgyblion i feithrin sgiliau craidd ac i'w hannog i archwilio materion lleol a byd-eang a myfyrio arnynt. Mae hefyd yn cynnwys enghreifftiau o waith celf o'r prosiect ac enghreifftiau o sut y mae ysgolion ledled y byd wedi defnyddio'r adnoddau gyda'u myfyrwyr.

## Cyfansoddwyd ar Bont San Steffan, 3 Medi, 1802

**gan William Wordsworth**

*Earth has not anything to show more fair:*
*Dull would he be of soul who could pass by*
*A sight so touching in its majesty:*
*This City now doth, like a garment, wear*
*The beauty of the morning; silent, bare,*
*Ships, towers, domes, theatres, and temples lie*
*Open unto the fields, and to the sky;*
*All bright and glittering in the smokeless air.*
*Never did sun more beautifully steep*
*In his first splendour, valley, rock, or hill;*
*Ne'er saw I, never felt, a calm so deep!*
*The river glideth at his own sweet will:*
*Dear God! the very houses seem asleep;*
*And all that mighty heart is lying still!*



River Chao Phraya gan Adrian Evans

# Cynnwys





Pupils from Escola Carlitos, São Paulo



River Thames by Barry Lewis

Mae'r pecyn yn seiliedig ar chwe thema allweddol ac fe'i cynlluniwyd i fod yn hyblyg ac er mwyn sicrhau y gellir ei addasu i'w ddefnyddio mewn amrywiaeth o leoliadau.

Mae pob uned yn cynnwys gwybodaeth gefndir, syniadau i'w trafod ac awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Ceir amcanion dysgu, rhestrau o adnoddau ychwanegol a chyfeiriadau at chwech sgil craidd y British Council. Gellir defnyddio'r trafodaethau a'r gweithgareddau fel mannau cychwyn mewn gwersi unigol neu fel elfennau o brosiect trawsgwricwlaidd mwy ar y cyd sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer cydweithio dros nifer o bynciau efallai gydag ysgol bartner dramor.

Os nad oes gennych ysgol bartner ar hyn o bryd ond yr hoffech ddod o hyd i un a chreu gofod ar-lein lle y gallwch gydweithio, ceir rhagor o wybodaeth yn http://schoolsonline.britishcouncil.org/partner-with-a-school/finding-the-right-partner

Ni waeth sut y byddwch yn defnyddio'r deunyddiau, gobeithio y byddwch yn mwynhau eich cyfle i archwilio Afonydd y Byd.

**THEMA 1 AFON BYWYD** 4–8
mae'r adnoddau yn yr adran hon yn annog ysgolion i addysgu, ystyried a thrafod nodweddion afonydd, dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, cymryd rhan mewn gwaith maes ac archwilio cynefinoedd a'r bywyd gwyllt a geir mewn afonydd ac yn yr ardaloedd o'u hamgylch.

**THEMA 2 DINAS AR AFON** 9–12
yn ystyried sut y gellir dadglgoi hanes dinasoedd drwy astudio datblygiad eu prif afonydd. Mae'n annog disgyblion i edrych yn ofalus ar eu dinas hwy ar afon a dinasoedd eraill ar afonydd a'r effaith a gawsant ar y bobl a oedd yn byw ac yn gweithio yno yn y gorffennol a'r effaith bresennol ar y bobl hynny.

**THEMA 3 AFON WEITHGAR** 13–15
yn canolbwyntio ar sut y mae afonydd yn parhau i chwarae rhan bwysig ym mywyd gwledydd heddiw a sut y gall datblygiadau wrth ymyl afonydd ysgogi dadleuon a thrafodaethau.

**THEMA 4 AFON LLAWN ADNODDAU** 16–19
yn pwysleisio pwysigrwydd afonydd fel adnoddau hanfodol a gaiff eu bwydo gan y cylch dŵr, y mae angen eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

**THEMA 5 AFON LYGREDIG** 20–23
lyn ystyried sut y gall ein gweithredoedd ddifrodi'r afonydd rydym yn dibynnu arnynt ac yn dangos sut y gall ysgolion annog eu disgyblion i ddod o hyd i ffyrdd o weithredu er mwyn helpu i gynnal yr adnodd gwerthfawr hwn.

**THEMA 6 DIWYLLIANT YR AFON** 24–26
yn ystyried sut mae afonydd bob amser wedi darparu ysbrydoliaeth i'r celfyddydau a diwylliant ac mae'n cynnwys syniadau i ddangos sut y gall ysgolion ysbrydoli eu disgyblion i barhau â'r etifeddiaeth honno yn ystod yr unfed ganrif ar hugain.

1

# Afon Bywyd

Ffrwd fawr, naturiol o ddŵr sy'n llifo ywafon Nid oes unrhyw ddwy afon yr un fath ond maent yn rhannu rhai nodweddion penodol ac yn dilyn camau tebyg ar eu taith o'u tarddiad i'r môr. Wrth iddi lifo am i lawr wedi'i thynnu gan ddisgyrchiant, mae afon yn siapio'r dirwedd drwy erydu, chludo a dyddodi ac mae'n cynnal bywyd drwy ddarparu bwyd, dŵr a chynefinoedd i anifeiliaid a phlanhigion.

Mae afonydd yn teithio drwy dri phrif gam sef y cwrs uchaf, y cwrs canol a'r cwrs isaf, y cyfeirir atynt weithiau fel ifanc, canol oed a hen. O'r tarddiad yn y cwrs uchaf, mae afonydd ifanc yn llifo'n gyflym, ac wrth i nentydd ymuno â'i gilydd, mae cyfaint y dŵr yn cynyddu. Mae'n bosibl y gwelwch nodweddion megis rhaeadrau a dyfroedd gwyllt gwyn yn ystod y cam hwn. Mae'r cwrs canol yn ystumio'n arafach drwy dir ar lethr ysgafn, gan ddyddodi llaid a phridd a dod yn ehangach ac yn ddyfnach gyda gorlifdiroedd. Yn olaf, wrth i'r afon ddynesu at y môr, daw'n llydan iawn ac wrth ei haber, bydd dŵr y môr yn cymysgu â dŵr croyw'r afon.



Sinseo Middle School, Seoul with Hyunjoo Seo

1



Pupils from Escola da Comunidade, São Paulo
by Roberta Fortunato and Keila Alaver



# Afonydd y Byd

Trafod afonydd! Mae afonydd i'w cael ar bob cyfandir. Gallant greu tirffurfiau enfawr fel yr Hafn Fawr ('Grand Canyon' yn Saesneg) ac maent yn ein cysylltu â'n gilydd, gyda'n gorffennol a'r byd o'n cwmpas.

Fel cyflwyniad, gofynnwch sawl un o afonydd y byd y gall eich dosbarth eu henwi? Pa rai y maent wedi ymweld â nhw, wedi trochi eu traed ynddynt neu wedi teithio arnynt? A oes ganddynt unrhyw atgofion neu gysylltiadau cryf ag afonydd? Beth maent yn ei wybod eisoes amdanynt a beth yr hoffent gael gwybod?

Pasiwch neu rholiwch glôb pwmpiadwy neu bêl feddal o amgylch y grŵp.Pan fydd pob plentyn yn ei ddal, gofynnwch iddynt enwi gwlad a dod o hyd i'w phrif afon ar y glôb neu mewn atlas. Fel arall, enwch afon a gofynnwch iddynt nodi ym mha wlad, cyfandir a hemisffer y mae'r afon honno, neu rhowch gynnig ar gwis gwir neu anwir cyflym. Gallai cwestiynau gynnwys y canlynol:

- Yr Amazon yw'r afon hiraf yn y byd. Gwir neu anwir? Anwir - afon Nile yw'r afon hiraf
- Yr enw ar astudio dŵr croyw, afonydd a llynnoedd yw llynoleg. Gwir
- Y rhaeadr uchaf yn y byd yw Rhaeadrau Niagara. Anwir - y rhaeadr uchaf yn y byd yw Rhaeadrau Angel yn Venezuela
- Yn y DU, mae pob person yn defnyddio tua 160 litr o ddŵr bob dydd - Gwir
- Mae afonydd bob amser yn llifo i'r de. Anwir - mae pedair o'r 10 afon hiraf yn y byd yn llifo i'r gogledd.

Dangoswch ffotograffau a chlipiau o afonydd ledled y byd a dechreuwch restr o afonydd yn nhrefn yr wyddor drwy ofyn i'r dosbarth restru enwau cymaint o afonydd neu eiriau sy'n gysylltiedig ag afonydd ag y gallant feddwl amdanynt wrth ymyl pob llythyren. Gellir ychwanegu at y daflen hon drwy gydol y pwnc a'i hadolygu ar y diwedd fel ffordd o fesur cynnydd. A allant gwblhau'r wyddor gyfan gan ddefnyddio geiriau sy'n gysylltiedig ag afonydd erbyn diwedd y prosiect?

Gallwch ddod o hyd i becynnau gwybodaeth ar gyfer 19 o brif afonydd y byd o afon Anacostia yn UDA i afon Yangtze yn Tsieina yn: http://totallythames.org/education/project/rivers_of_the_world/resources

Anogwch eich disgyblion i ddod o hyd i nifer ohonynt ar fap o'r byd neu Google earth. Wedyn rhannwch y disgyblion yn grwpiau bach, gofynnwch iddynt ddewis un a chreu darlun mawr o'i thaith o'i tharddiad i'w haber ar lawr yr iard chwarae gan ddefnyddio sialc, lluniau o gylchgronau a deunyddiau gwastraff. Anogwch bob grŵp i dynnu ffotograffau o'r canlyniadau a chreu ffeil ffeithiau ddiddorol am ei afon. Dylai hyn gynnwys yr enw, y lleoliad ac o leiaf 5 ffaith ddiddorol i'w cyflwyno i weddill y dosbarth mewn ffyrdd diddorol ac arloesol. Gallent addysgu gwers, creu cyflwyniad, tudalen wiki neu ffilm ddogfen ffug, neu ysgrifennu llyfr gwybodaeth i blant iau.

Eglurwch nodweddion a phrosesau allweddol system afon i'r dosbarth, gan gynnwys gwahanol gyrsiau'r afon a phrosesau erydu, cludo a dyddodi.

# 1

Gellir dod o hyd i adnoddau defnyddiol yn hyn o beth ar wefan y BBC yn: http://www.bbc.co.uk/schools/gcsebitesize/geography/water_rivers/river_landforms_rev1.shtml ac yn yr adran adnoddau ychwanegol ar ddiwedd y pecyn.

Gofynnwch i'ch disgyblion weithio mewn grwpiau i dorri a pharu'r geiriau a'r diffiniadau yn Atodiad 1 ac wedyn gynllunio a chreu tri murlun neu fodel 3D mawr yn dangos prif nodweddion pob adran o afon gyda gwybodaeth wedi'i chofnodi ar labeli neu fotymau sain. Wedyn, gellid cyfuno'r rhain i greu darlun neu fodel mawr o afon o'r tarddiad i'r aber. Anogwch y disgyblion i ychwanegu unrhyw eiriau newydd y dônt ar eu traws i'w rhestr eirfa.

Cyflwynodd Cenhadon y British Council a oedd yn gweithio gyda phlant o nifer o ysgolion yng Nghymru eu prosiect afonydd drwy rannu'r myfyrwyr yn grwpiau bach a rhoi amlen i bob grŵp a oedd yn cynnwys enw un o afonydd mawr y byd. Wedyn, defnyddiodd y myfyrwyr iPads i wneud gwaith ymchwil i'w helpu i greu map meddwl a oedd yn cynnwys cliwiau a ffeithiau diddorol am eu hafon i'r grwpiau eraill. Wedyn, gofynnwyd i'r grwpiau eraill ddyfalu a dod o hyd i enw'r afon a'r wlad ar fap mawr o'r byd. Aeth y myfyrwyr ymlaen i ymgymryd â nifer o weithgareddau y gwnaethant wedyn eu rhannu gyda disgyblion eraill o'u hysgolion fel Cenhadon Afonydd y Byd.

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Daearyddiaeth, TGCh, Cymraeg a Saesneg.

**SGILIAU CRAIDD:**
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau, creadigrwydd a dychymyg, llythrennedd digidol, cyfathrebu a chydweithio, arweinyddiaeth myfyrwyr a datblygiad personol.

**AMCANION DYSGU:**
Ysgogi diddordeb mewn afonydd y byd a dysgu am nodweddion allweddol system afon.



1

# Archwilio eich afon leol

Mae dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn cyflwyno buddiannau eithriadol o ran addysg disgyblion a gall fod yn un o'r elfennau mwyaf cofiadwy o'u cyfnod yn yr ysgol. Beth am gyfoethogi eich astudiaethau drwy ymweld â'ch afon agosaf a chynnal rhai o'r ymchwiliadau canlynol?


Cyn yr ymweliad, trafodwch pa ran o'r afon y byddwch yn ymweld â hi a lleolwch y rhan honno gan ddefnyddio mapiau, ffotograffau o'r awyr neu feddalwedd megis Google Earth. Trafodwch ddiogelwch dŵr, beth y gallent ddisgwyl ei weld ar eu hymweliad maes a chynlluniwch y daith er mwyn cyrraedd. Mae'n bosibl y byddwch yn gallu trefnu sgwrs neu weithdy gan Warden neu swyddog lleol yr Awdurdod Afonydd a mynd ar gwch yn ystod eich ymweliad, yn ogystal ag ymgymryd â gweithgareddau. Sicrhewch eich bod wedi cymryd yr holl ragofalon a'ch bod wedi cwblhau'r asesiadau risg gofynnol cyn mynd.

Pan fyddant yn cyrraedd, gofynnwch i'ch disgyblion gofnodi'r hyn y gallant ei weld a'i glywed. A yw'r afon yn llifo'n gyflym neu'n araf? Pa nodweddion naturiol a nodweddion gwneud y gallant eu nodi? A yw'r dŵr yn edrych yn lân neu'n llygredig? Edrychwch am dystiolaeth o erydu, dyddodi a nodweddion eraill afonydd. Cymerwch nodiadau, ffotograffau, brasluniau gan ddefnyddio ffenestri cerdyn a threfnwch helfa sborion lle y bydd grwpiau yn cystadlu i gasglu nifer o wrthrychau naturiol a gwrthrychau gwneud yn ystod cyfnod penodedig o amser.

Cofnodwch yr amodau tywydd, y tymheredd a'r lleithder, ac amcangyfrifwch led a dyfnder yr afon. Cymerwch fesuriadau o faint cerrig mân, tymheredd y dŵr a chyflymder yr afon drwy fesur a marcio pellter o 10 metr ac amseru pa mor gyflym y mae gwrthrych megis cwch bach, ffon neu oren bach yn teithio'r pellter hwnnw. Casglwch samplau dŵr a gwaddod i'w hastudio ar ôl dychwelyd i'r ystafell ddosbarth ac archwiliwch lefelau asidedd gan ddefnyddio stribedi o bapur litmws. Ceir enghreifftiau pellach o dechnegau gwaith maes i ddisgyblion hŷn ar wefan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol http://www.rgs.org/OurWork/Schools/Fieldwork+and+local+learning/Fieldwork+techniques/Rivers.htm

Mae afonydd hefyd yn lleoedd arbennig ar gyfer dod o hyd i fywyd gwyllt. Defnyddiwch rwydi llusgo, pwteri a chwyddwydrau i archwilio'r amgylchedd a hela chwilod mewn gwahanol gynefinoedd drwy osod cylchoedd a chyfrif y nifer a'r mathau o fflora a ffawna a welir. Os gallwch archwilio hyd bas yn ddiogel, ceisiwch ddefnyddio rhwydi, bwcedi a hambyrddau i gasglu anifeiliaid di-asgwrn-cefn a physgod bach. Tynnwch lun o'r creadur mwyaf diddorol y dewch o hyd iddo, ceisiwch ei adnabod gan ddefnyddio allwedd neu rhowch enw dychmygus iddo megis Llusgiadur Hirgoes!

Ar ôl dychwelyd i'r ysgol, cofnodwch eich gwaith maes, defnyddiwch frasluniau fel sail ar gyfer gwaith celf megis brithwaith a gwaith print, a mowntiwch ffotograffau mewn arddangosfa mewn lleoliad rhithwir megis gwefan yr ysgol, neu mewn ardal benodedig yn eich ysgol.



Pupils from SMP Muhammadiyan 7, Surakarta

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Daearyddiaeth, Mathemateg, Celf a dylunio, Gwyddoniaeth.

**SGILIAU CRAIDD:**
Cyfathrebu a chydweithio, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, llythrennedd digidol.

**AMCANION DYSGU:**
Profi amgylchedd afon yn uniongyrchol, cynnal ymchwiliadau gwaith maes a chyflwyno eu canfyddiadau.


1

# Fflora a ffawna

Mae afonydd a'u glannau yn darparu cartrefi i amrywiaeth eang o anifeiliaid. Dewch ag enghreifftiau o bysgod o'r siop bysgod neu'r farchnad leol i'r dosbarth er mwyn i'ch disgyblion eu harchwilio'n fanwl ac yn ofalus. Gofynnwch iddynt dynnu lluniau manwl, nodi nodweddion megis tagellau a nodi patrymau'r marciau ar eu croen. Trafodwch sut y gallant anadlu, cadw cydbwysedd, symud, bwydo a goroesi yn eu hamgylchedd naturiol. Gall athrawon myfyrwyr hŷn hefyd benderfynu astudio anatomi pysgod drwy ddyrannu pysgod er mwyn darganfod mwy am eu horganau mewnol. (Ceir dolenni i ffilmiau o wersi gwyddoniaeth yn y Ffindir a'r DU yn addysgu'r agwedd hon ar wyddoniaeth yn yr adran adnoddau ychwanegol.)

Trafodwch enghreifftiau o wahanol gadwyni bwyd y gellir dod o hyd iddynt yn afonydd y byd ac ymchwiliwch i rai o'r creaduriaid anhygoel sy'n treulio eu bywydau mewn ecosystem afon. Gallai'r rhain gynnwys anacondas, neidr fwyaf y byd, dolffiniaid afon Tsieina a maran sy'n teithio gannoedd o filltiroedd o'r cefnfor i'r man lle y'u ganed. Trafodwch sut y mae'r creaduriaid hyn wedi addasu i oroesi yn eu hamgylcheddau afon a pha beryglon y maent yn eu hwynebu yn yr oes sydd ohoni? Sut y gallwn ddiogelu eu hecosystemau bregus?

Er mwyn ystyried prosesau addasu ac esblygu ymhellach, rhowch wahanol ddisgrifiadau o gynefin afon i grwpiau o ddisgyblion. Gallai'r rhain gynnwys gwernydd mangrof yr Amazon, moryd llanw neu ddelta Nile. Wedyn, rhowch glai neu does chwarae a deunyddiau brithwaith i bob grŵp a'u herio i gydweithio i ddylunio a gwneud creadur dychmygus sydd newydd ei ddarganfod yn yr ecosystem hon. Dylent enwi eu creadur a gallu disgrifio sut y bydd yn bwyta, yn symud ac yn diogelu ei hun rhag ysglyfaethwyr yn yr ecosystem hon. Gofynnwch iddynt gyflwyno eu creaduriaid dychmygus a'u haddasiadau i weddill y dosbarth ac wedyn greu adroddiadau, straeon neu animeiddiadau am eu creadur a'i fywyd yn yr afon.



Government High School Kala Gujran No. 1, Jhelum

**Gwaith partner**

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner ar y thema hon, gallech wneud y canlynol:

- cyfnewid ffotograffau o'ch mapiau iard chwarae, murluniau o afonydd neu fodelau
- rhannu ffeiliau ffeithiau am afonydd a gwaith celf o'ch ymweliadau maes
- cyfweld â'ch ysgol bartner am ei gwaith maes a chymharu canfyddiadau o'r ddwy afon
- dod o hyd i wybodaeth am y bywyd gwyllt sy'n byw yn afon leol eich ysgol bartner
- gofyn i'r disgyblion beth y gwnaethant ei fwynhau a beth oedd yr elfen fwyaf heriol iddynt wrth weithio ar y thema hon.

**Adnoddau defnyddiol ar gyfer y thema hon:**

- Glôb pwmpiadwy neu atlasau a mapiau
- Mynediad i'r rhyngrwyd a chamerâu digidol
- Deunyddiau gwaith maes megis chwyddwydrau, pwteri, rhwydi, bwcedi
- Clai neu does chwarae, deunyddiau brithwaith, darnau mawr o sialc.

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth, Astudiaethau amgylcheddol.

**SGILIAU CRAIDD:**
Llythrennedd digidol, creadigrwydd a dychymyg, cyfathrebu a chydweithio, meddwl yn feirniadol a datrys problemau.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Dysgu am wahanol ecosystemau afonydd a sut mae planhigion ac anifeiliaid yn addasu i fywyd yn yr amgylchedd y maent yn byw ynddo.

# 2

# Dinas ar Afon

## Ditectifs Dinas ar Afon

Mae llawer o ddinasoedd mawr y byd wedi datblygu ar hyd glannau neu aberoedd afonydd mawr ac mae straeon yr afonydd hyn yn adlewyrchu hanes y dinasoedd eu hunain.

Trafodwch sut y mae eich dinas a dinas eich ysgol bartner wedi datblygu dros amser. Sut ddinas ydoedd yn y gorffennol? Pam y gwnaeth pobl ymgartrefu yma yn wreiddiol? Sut beth oedd eu tai a pham? Sut roeddent yn ennill bywoliaeth o'r afon? Pa ddigwyddiadau hanesyddol pwysig y bu'n rhan ohonynt? Sut rydym yn gwybod?

Dangoswch hen ffotograffau, paentiadau neu fapiau hanesyddol o'r ardal i'ch myfyrwyr a cheisiwch drefnu cyfweliadau gyda thrigolion lleol neu staff amgueddfa a all roi mwy o hanes bywyd yn y ddinas yn y gorffennol i chi. Gall cofnodion cyfrifiad o strydoedd hefyd roi syniad o alwedigaethau ac amodau pobl a oedd yn byw ar hyd yr afon yn y gorffennol. Gall disgrifiadau ffeithiol a ffuglennol cyfoes hefyd ddarparu gwybodaeth werthfawr. Yn ei lyfr, London Labour and the London Poor, mae'r diwygiwr o oes Fictoria Henry Mayhew yn disgrifio sut roedd plant amddifad tlawd a adwaenwyd fel slotwyr bach yn cerdded drwy laid afon Tafwys er mwyn dod o hyd i ddarnau o lo, haearn a rhaff i'w gwerthu yn y siopau i'r tlodion. Creodd Charles Dickens hefyd ddisgrifiadau ardderchog o afon Tafwys, ei hadeiladau a'i chymeriadau mewn llawer o'i nofelau megis Our Mutual Friend a Great Expectations.

Anogwch eich disgyblion i ddarganfod sut roedd awduron yn y gorffennol yn portreadu bywyd wrth ymyl eich afon ac wedyn ewch â hwy am dro o amgylch eich dinas ar afon er mwyn cofnodi'r hyn sydd i'w weld a'i glywed yn y ddinas heddiw. Defnyddiwch lyfrau braslunio a chamerâu digidol i gofnodi manylion diddorol adeiladau, arwyddion, atyniadau i dwristiaid, pontydd a siopau. Cofnodwch ddarnau o sgyrsiau a glywch (hyd yn oed y rheini gan bobl ar ffonau symudol) a chyfwelwch â thrigolion am eu bywydau heddiw. Beth yw'r pethau gorau a'r pethau gwaethaf am fyw wrth ymyl yr afon?

Ar ôl ymweld â'ch dinas ar afon ac astudio ei hanes, gofynnwch i'ch disgyblion ddefnyddio eu nodiadau a'u delweddau i ddod â'r ardal yn fyw mewn geiriau a lluniau drwy ysgrifennu disgrifiad bywiog o'r hyn sy'n gwneud eu dinas yn unigryw ac yn arbennig. Gellid cyflwyno'r disgrifiadau hyn wedi'u hategu gan ffotograffau a darluniadau'r myfyrwyr mewn llyfr neu eu defnyddio i greu llyfryn, blog neu bodlediad i dwristiaid am y ddinas. Gellid cyfnewid y wybodaeth hon gyda'ch ysgol bartner a'i hanfon i asiantaeth dwristiaeth y ddinas briodol er mwyn cael sylwadau arni.

Anogodd ysgol yn Derry, Gogledd Iwerddon ei myfyrwyr i gymryd ffotograffau o'r Bont Heddwch dros Afon Foyle, sy'n cysylltu dau hanner y ddinas a'r cymunedau Protestannaidd a Chatholig. Wedyn, defnyddiwyd y ffotograffau hyn fel ysbrydoliaeth ar gyfer ysgrifennu cerddi, a gafodd eu harddangos gyda'u ffotograffau mewn oriel gelf leol.

College Claude Chappe, Paris with Shona Watt and Pete Gomes

# 2

Ysgrifennodd un myfyriwr
y gerdd ganlynol:

The Peace Bridge reminds
us of serenity and hope.

The busy hub of the city surrounds
the tranquil river as it flows

Peaceful, calm, flowers,
splashes of colour,

Dappled, sketched, drawing
the River God to the surface

Pure curved bridge sews and mends
the rips from decades before.

Gellid defnyddio brasluniau a darluniadau hefyd fel sail ar gyfer gwaith celf gan ddefnyddio cyfryngau gwahanol. Gwnaeth myfyrwyr o Goleg Claude Chappe ym Mharis doriadau papur yn seiliedig ar bontydd a thirnodau ar hyd afon Seine, a gwnaeth disgyblion o'u hysgol bartner, sef Ysgol Newstead Wood yn Llundain, doriadau papur yn seiliedig ar y gwleddau a'r dathliadau a gynhaliwyd yn y twnnel tanddwr cyntaf o dan afon Tafwys.

**YSTOD OEDRAN:**
10-14.

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Hanes, Cymraeg a Saesneg, TGCh, Daearyddiaeth.

**SGILIAU ALLWEDDOL A RHAGOLYGON:**
Meddwl yn Greadigol, Meddwl yn Feirniadol, Empathi.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Cynnal gwaith ymchwil i hanes dinas ar afon a chreu darlun o fywyd yn y ddinas heddiw Feirniadol, Empathi.


2

# Archeolegwyr Ardderchog

Caiff llawer o ffynonellau o dystiolaeth am ddinasoedd ar afonydd yn y gorffennol eu dadgloddio gan archeolegwyr sy'n nodi gwrthrychau sydd wedi cael eu golchi ar lannau'r afon. Mae nifer o amgueddfeydd ac ymddiriedolaethau mewn gwahanol ddinasoedd yn cynnig teithiau cerdded archwiliadol i ysgolion ar hyd y blaendraeth er mwyn casglu a nodi arteffactau hanesyddol. Os nad yw hynny'n bosibl, beth am ailgreu cloddfa archeolegol drwy gladdu gwrthrychau mewn hambyrddau tywod mawr. Dywedwch wrth y dosbarth eu bod yn archeolegwyr a bod arteffactau gwerthfawr sy'n datgelu gwybodaeth bwysig am hanes eu dinas wedi'u cuddio yn y tywod. Bydd angen iddynt gydweithio er mwyn dewis dulliau a chyfarpar priodol i ddatguddio a nodi'r gwrthrychau hyn.

Ar ôl darganfod a glanhau eu gwrthrychau â brwsys paent, gofynnwch iddynt ddefnyddio adnoddau ymchwil a gwefannau priodol i gael gwybod mwy am eu gwrthrychau a thrafodwch y cwestiynau canlynol:

- O beth y gwnaed y gwrthrych yn eich barn chi ac ar gyfer beth y cafodd ei ddefnyddio o bosibl? Rhowch eich rhesymau.
- Yn eich barn chi, pa mor hen ydyw?
- Pwy y gallai fod wedi bod yn berchen arno a pham oedd yn yr afon?
- Sut y byddech yn disgrifio'r gwrthrych i rywun nad oedd erioed wedi ei weld o'r blaen?



River Ganges by George Nicholson

Tynnwch luniau manwl o'ch canfyddiadau. Os ydych wedi claddu rhan o wrthrych, gofynnwch i'r disgyblion dynnu llun o'r darnau a phenderfynu sut olwg fyddai wedi bod ar y gwrthrych cyflawn ac wedyn gofynnwch iddynt gyflwyno eu casgliadau i weddill y dosbarth. the fragments and decide what the completed object may have looked like and then present their conclusions to the rest of the class.

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Hanes, Cymraeg a Saesneg, Drama.

**SGILIAU CRAIDD:**
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cyfathrebu a chydweithio, llythrennedd digidol.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Dysgu sut mae archeolegwyr yn cael gafael ar ffynonellau sylfaenol ac yn eu hastudio er mwyn casglu tystiolaeth am y gorffennol.



Rivers of the World artwork exhibition in front of Tower Bridge, London by Kate Forde

# 2

## Pontydd a thirnodau

Mae pontydd yn nodwedd bwysig mewn llawer o ddinasoedd ar afonydd. Gallant fod yn brydferth yn ogystal â chyflawni diben a gallant fod yn gysylltiedig â hanes y ddinas. Yn Llundain yn ystod y Canol Oesoedd ac Oes y Tuduriaid, fe'u defnyddiwyd hyd yn oed i arddangos pennau bradwyr!

Dangoswch luniau o wahanol fathau o ddyluniad pontydd i'ch dosbarth megis pont bwa a phont grog. Dylech gynnwys rhai enghreifftiau enwog megis Pont Harbwr Sydney a Phont y Golden Gate. Os yw'n bosibl, ewch i weld pont leol, trafodwch y dyluniad, siapiau a deunyddiau y gallwch eu gweld ac unrhyw fotiffau addurniadol.

Ar ôl dychwelyd i'r dosbarth, eglurwch i'r disgyblion sut i wneud gwahanol fathau o uniadau effeithiol megis uniadau-T, uniadau-L, colofnau ac uniadau trionglog, ac wedyn rhannwch y dosbarth yn grwpiau. Gofynnwch i bob grŵp lunio enw ar gyfer cwmni pontydd ac wedyn dylunio a gwneud pont â strwythur annibynnol yn unol â'r manylebau canlynol gan ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu megis ffyn gardd a bandiau elastig, papur newydd neu gerdyn a thâp. :

- Mae'n rhaid i'r bont rychwantu bwlch o 30cm
- Mae'n rhaid i'r bont allu cynnal pwysau (e.e. 50g neu gar tegan) yn y canol
- Mae'n rhaid i'r bont fod yn strwythur annibynnol
- Mae angen i'r bont fod yn ddeniadol
- Mae angen i'r grŵp ddangos sgiliau cydweithio a datrys problemau.

Gosodwch derfyn amser i'r plant gynllunio ac adeiladu eu pont. Ar ôl iddynt gwblhau eu modelau, dylech eu profi a'u gwerthuso yn erbyn y meini prawf cyn rhoi tystysgrif i'r cwmni dylunio pontydd gorau. Fel gweithgaredd dilynol, gallech hefyd ofyn iddynt roi cynnig ar adeiladu eu pontydd gan ddefnyddio spaghetti neu falws melys!

**Gwaith partner**

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner ar y thema hon, gallech wneud y canlynol:

- cyfnewid straeon am hanes eich dinasoedd ac anfon disgrifiadau a ffotograffau o fywyd yn y ddinas heddiw
- creu taflenni i dwristiaid, blogiau neu ffilmiau er mwyn rhoi gwybodaeth i ymwelwyr. Rhowch adborth ar y canllawiau mwyaf defnyddiol.
- cyfnewid gwybodaeth am ddinasoedd a phontydd ym mhob gwlad
- anfon ffotograffau a disgrifiadau o'r pontydd mwyaf llwyddiannus a adeiladwyd yn y dosbarth.

**Adnoddau defnyddiol ar gyfer y thema hon:**

- Mapiau hanesyddol, ffotograffau a ffynonellau sylfaenol eraill am eich dinas
- Mynediad i'r rhyngrwyd a chamerâu digidol
- Ffyn, bandiau elastig, papurau newydd, deunydd wedi'i ailgylchu, spaghetti, malws melys.




River Seine by Shona Watt

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Hanes, Dylunio a Thechnoleg.

**SGILIAU CRAIDD:**
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a dychymyg.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Dysgu am wahanol fathau o bontydd a chreu pont â strwythur annibynnol i rychwantu pellter a dal pwysau.



3

# Afon Weithgar

## Afonydd sy'n gweithio i ni

Drwy gydol hanes, mae pobl wedi defnyddio afonydd. Ffynnodd cymdeithas waraidd yr Eifftiaid Hynafol wrth i afon Nile ganiatáu cludiant a masnach, ac o ganlyniad i'r llifogydd blynyddol, daeth yr anialwch yn dir ffrwythlon. Mae afonydd yn parhau i ddarparu llwybrau cludiant, dŵr yfed a dŵr i ddyfrhau ffermdir a phŵer i gartrefi a diwydiant. Yn yr UD, mae mwy na 50 o ddinasoedd yn dibynnu ar afon Mississippi am eu cyflenwad dŵr beunyddiol.

Trefnwch y disgyblion yn grwpiau bach a gofynnwch iddynt feddwl am gymaint o ffyrdd â phosibl o ddefnyddio afon? Dylech eu hannog i edrych ar y ffotograffau yn Atodiad 2 ac i drafod sut y caiff yr afonydd eu defnyddio ym mhob un. Gofynnwch iddynt ddarganfod lleoliad pob afon ac ychwanegu swigod meddwl a siarad i bob ffotograff yn dangos yr hyn y gallai'r bobl fod yn ei feddwl ac yn ei ddweud wrth ei gilydd.

Yn y 1700au, roedd Afon Tafwys mor brysur fel mai prin y gallai traffig symud wrth i longau giwio ar hyd ei glannau er mwyn dadlwytho eu cargo. Mae'r sefyllfa yn wahanol iawn heddiw. Anogwch y disgyblion i gynnal gwaith ymchwil er mwyn darganfod sut y defnyddiwyd eu hafon leol ac afon eu hysgol bartner at ddibenion masnach a chludiant ar wahanol adegau. Pa nwyddau a gludwyd? O ble y daeth y nwyddau hynny ac i ble yr aethant? Trafodwch sut mae newidiadau mewn technoleg wedi effeithio ar y ffyrdd y caiff yr afonydd eu defnyddio a sut y cânt eu defnyddio o bosibl ymhen 100 mlynedd?

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Hanes, Daearyddiaeth, Cymraeg a Saesneg, TGCh.

**SGILIAU CRAIDD:**
Llythrennedd digidol, cyfathrebu a chydweithio.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Dysgu am y newidiadau o ran patrymau defnydd afonydd dros amser.

Siraj Uddin Ahmed Academy, Sylhet with Syed Rashad and Ahsan Habib

3

# Dadleuon am Afonydd

Gall datblygiadau newydd sy'n effeithio ar y ffordd y caiff afonydd eu defnyddio fod yn ddadleuol. Gofynnwch i'ch disgyblion ddod o hyd i wybodaeth am enghreifftiau diweddar megis prosiect Y Tri Ceunant ar hyd Afon Yangtze yn Tsieina, argae Belo Monte ym Mrasil ac Argae'r Dadeni Mawr yn Ethiopia. Anogwch y disgyblion i ymchwilio i'r dadleuon o blaid ac yn erbyn y datblygiadau newydd hyn.

Trefnwch ddadl chwarae rôl gydag aelodau o'ch dosbarth yn chwarae rôl cymeriadau yr effeithir arnynt gan gynigion i adeiladu ffatri newydd neu orsaf bŵer wrth ymyl eich afon leol.

Gallai'r rolau gynnwys perchenogion y datblygiad newydd, actifyddion amgylcheddol, aelodau o'r cyfryngau, trigolion lleol di-waith, perchenogion siopau, y Maer lleol ac aelodau eraill o'r gymuned.

Penderfynwch sut y gallai'r datblygiad newydd effeithio ar eich cymeriad os aiff rhagddo a'r pwyntiau y byddwch yn eu codi yn ystod y ddadl. Ar ddiwedd y sesiwn, cynhaliwch bleidlais o ran p'un a ddylai'r cynllun fynd rhagddo a gwerthuswch pa ochr a gyflwynodd y dadleuon mwyaf cadarn.




River Nile by Adrian Evans

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Daearyddiaeth, Drama, Cymraeg a Saesneg.

**SGILIAU CRAIDD:**
Cyfathrebu a chydweithio, dinasyddiaeth, arweinyddiaeth myfyrwyr a datblygiad personol.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Dysgu am ddatblygiadau diweddar wrth ddefnyddio afonydd mawr y byd a sut y gall datblygiadau mewn perthynas ag afonydd fod yn ddadleuo.



The Bosphorus by Adrian Evans

3

# Cychod ar Afonydd

Bu cychod yn nodweddion allweddol ar afonydd gweithgar erioed, gan ddarparu tai, math o drafnidiaeth i bobl a nwyddau symud ledled y wlad a ffordd foddhaus o weld yr afon.

Dangoswch enghreifftiau o wahanol fathau a steiliau o gychod afon o bob cwr o'r byd megis abras pren Mornant Dubai, cychod papyrws ar afon Blue Nile neu'r cychod cynffon hir ar afon Chao Phraya yn Bangkok. Trafodwch y deunyddiau a ddefnyddiwyd i'w gwneud a'r ffactorau lleol sydd wedi dylanwadu ar eu dyluniad a'u gweithrediad.

**Gwaith partner**
Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner ar y thema hon, gallech wneud y canlynol:

- dod o hyd i wybodaeth am fasnach a chludiant ar afon leol eich ysgol bartner
- cyfnewid gwybodaeth am y mathau o gychod a ddefnyddir yn gyffredinol ar eu hafon. Pa ffactorau sydd wedi dylanwadu ar eu dyluniad?
- cyfnewid ffotograffau o ddyluniadau eich cychod a darganfod pa fath o gwch oedd fwyaf llwyddiannus - pa mor bell y gwnaethant deithio?

**Mae adnoddau defnyddiol ar gyfer y thema hon yn cynnwys y canlynol:**
- mynediad i'r rhyngrwyd a deunyddiau cyfeirio
- deunyddiau wedi'u hailgylchu, bandiau elastig, ffynhonnell ddŵr
- batris, bylbiau, gwifrau a chysylltyddion
- camerâu digidol.



River Papaloapan by Adrian Evans

Trefnwch gyfres o ymchwiliadau er mwyn ystyried gwahanol fathau o ddyluniadau cychod. Gan ddefnyddio clai neu does chwarae a thanc dŵr, gofynnwch i'ch disgyblion ddarganfod pa siâp corff sy'n arnofio orau, ac yna wneud cwch o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu. Wedyn, gallent fynd ati i gynllunio ymchwiliad i ddarganfod pa fath o bŵer fydd orau ar gyfer eu cwch.

Gallent ddefnyddio hwyliau, arbrofi gyda bandiau elastig y gellir eu dirwyn neu foduron. Fel gweithgaredd estynedig, trefnwch gystadleuaeth i ddylunio'r system fwyaf arloesol gan ddefnyddio cylched drydanol i fod yn ddiogel yn ystod y nos neu rybuddio cychod pan fydd creigiau gerllaw.

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg.

**SGILIAU CRAIDD:**
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a dychymyg.

**AMCANION DYSGU:**
Ymchwilio i wahanol nodweddion cychod ledled y byd a dylunio a gwneud cwch o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.



Pupil from Secundaria Basica No 46 Tigre, Buenos Aires



St. Joseph's Convent School, Kolkata with Tandra Chanda and Pulak Ghosh

4

# Afon Llawn Adnoddau

Mae dŵr yn rhan mor annatod o'n bywydau beunyddiol fel ein bod weithiau yn ei gymryd yn ganiataol. O ble y daw'r dŵr hwn a sut rydym yn defnyddio'r un dŵr a oedd yma cyn esblygiad dyn? Yr ateb yw'r cylch dŵr, sy'n hanfodoler mwyn sicrhau bod glaw yn syrthio ledled y byd a bod afonydd yn dechrau ffurfio.

Mae gwres o'r haul yn achosi i ddŵr anweddu o foroedd ac afonydd. Wrth i'r anwedd dŵr godi, mae'n oeri ac yn ffurfio cymylau. Mae diferion bach o ddŵr yn syrthio fel glaw neu eira ac yn casglu mewn afonydd. Mae'r afonydd yn llifo i'r môr ac mae'r broses yn ailddechrau unwaith eto. Gellir cael rhagor o wybodaeth o wefan y Swyddfa Dywydd yma gan gynnwys animeiddiad am y cylch dŵr ac arbrawf i greu cylch dŵr mewn bag! http://www.metoffice.gov.uk/learning/weather-for-kids/water-cycle.

Eglurwch drefn y cylch dŵr a'i bwysigrwydd i fywyd ar y ddaear. Rhowch gopïau o'r sleid yn Atodiad 3 i'ch disgyblion - a grëwyd gan fyfyriwr i ddangos y cylch dŵr. Gofynnwch iddynt ychwanegu labeli syml ac esboniad byr i ddangos eu bod wedi deall.

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Gwyddoniaeth, Daearyddiaeth, Cymraeg a Saesneg, TGCh.

**SGILIAU CRAIDD:**
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Dysgu am bwysigrwydd y cylch dŵr a'i rôl wrth ffurfio afonydd.

# 4

## Mae Pob Diferyn yn Cyfrif

Dangoswch lun o dap yn diferu i'ch disgyblion. Trafodwch beth sy'n digwydd yn y llun. Pam ei fod yn broblem? Bydd tap sy'n diferu unwaith bob 10 eiliad yn gwastraffu tua 315 litr o ddŵr mewn blwyddyn - sef tua dau fath mawr yn llawn dŵr.

Gofynnwch i'ch myfyrwyr gadw cofnod o faint o ddŵr y maent yn ei ddefnyddio bob dydd a chreu cronfa ddata o faint o ddŵr a ddefnyddir gan y dosbarth mewn diwrnod, wedyn wythnos a blwyddyn. Faint fyddai hyn ar draws yr ysgol? Trafodwch sut y gallent ddefnyddio llai o ddŵr drwy wneud addasiadau bach i'w harferion - diffodd y tap wrth lanhau eu dannedd (gallai hyn arbed pedwar litr y dydd) neu gymryd cawod am lai o amser.

Gwahoddwch y disgyblion i ddefnyddio grid bwrdd stori i greu stribed comig byr i ddarbwyllo plant iau i arbed dŵr. Efallai y gallent ddyfeisio cymeriad archarwr i gyfleu eu neges.

Mewn rhannau o'r byd lle na all pobl ddefnyddio tap i gael dŵr ffres, efallai y bydd yn rhaid iddynt gerdded cryn bellter i gasglu dŵr sawl gwaith y dydd. Mae'r sefyllfa hon yn debygol o waethygu yn sgil newid yn yr hinsawdd, felly mae pob diferyn o ddŵr yn cyfrif. Rhannwch y gerdd Woman's World gan Barolong Seboni o Botswana yn Atodiad 4 gyda'ch disgyblion.

Trafodwch sut mae diwyg y testun a'r darluniadau gan Jan Pienkowski yn cyfrannu at thema'r gerdd. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu cerdd siâp eu hunain, yn seiliedig ar y syniad bod pob diferyn o ddŵr yn cyfrif gan ddefnyddio siapiau sy'n cyfateb i neges y gerdd.


Washing in the Hooghly by Kate Forde



**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Cymraeg a Saesneg, Dinasyddiaeth, Daearyddiaeth.

**SGILIAU CRAIDD:**
Cyfathrebu a chydweithio, creadigrwydd a dychymyg, dinasyddiaeth, datblygiad personol ac arweinyddiaeth myfyrwyr.

**DEILLIANNAU DYSGU:**
Ymchwilio i bwysigrwydd gwarchod dŵr.



Rio de la Plata by Adrian Evans

4

# Llifogydd

Mae llifogydd yn digwydd pan fydd dŵr, llaid a malurion yn gorlifo dros lannau afonydd ar ôl cyfnod estynedig o law neu law trwm, neu pan fu newidiadau i'r dirwedd naturiol. Gall hyn wneud tir yn ffrwythlon ond gall hefyd achosi trychinebau gan achosi marwolaeth a phroblemau sylweddol megis dŵr yfed llygredig, dinistrio cartrefi a chynefinoedd a lledaenu afiechydon a gaiff eu cludo gan ddŵr.

Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o waethygu amledd llifogydd wrth i lefelau'r môr godi ac wrth i law trymach syrthio mewn rhai ardaloedd. Rhagwelir y bydd rhai ardaloedd megis gogledd Ewrop ac ardaloedd trofannol gwlyb yn dod 40 y cant yn wlypach.

Trafodwch gyda'ch dosbarth pam bod rhai lleoliadau yn fwy agored i lifogydd nag eraill. Sut y gallai gweithredoedd gan bobl achosi llifogydd amlach neu fwy difrifol?

Gellir meithrin gwydnwch yn erbyn llifogydd drwy waith peirianneg, rheoli ecosystemau neu gyfuniad o'r ddau.Adeiladwyd llifgloddiau (neu dwmpathau pridd) ar hyd llawer o afonydd mawr megis afon Yangtze ers dros 1,500 o flynyddoedd er mwyn diogelu'r ardal rhag llifogydd. Yn 1982, cwblhawyd Atalfa'r Tafwys yn Llundain er mwyn diogelu'r ddinas rhag llifogydd wedi'u hachosi gan ymchwyddau llanwol.Mae'n cynnwys 10 giât dur sy'n pwyso 3,300 o dunelli ac sydd mor uchel ag adeilad pump llawr pan fyddant wedi'u codi.

Rhannwch eich disgyblion yn grwpiau a gofynnwch iddynt gynnal gwaith ymchwil am wlad neu ardal benodol yr effeithiwyd arni'n ddifrifol gan lifogydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Marciwch y lleoliadau ar fapiau ac os yw'n bosibl, edrychwch ar ddelweddau o'r ardal leol ar Google Earth. Gofynnwch i bob grŵp ddod o hyd i wybodaeth am ffactorau sy'n achosi'r llifogydd yn y lleoliad hwn a'r effaith y maent yn ei chael ar fywydau pobl a'r amgylchedd. A gymerwyd unrhyw ragofalon i atal hyn rhag digwydd eto? Anogwch bob grŵp i greu ffeil ffeithiau gyda mapiau a delweddau yn dangos y lleoliad, y dyddiad, yr achosion, yr effeithiau a'r ymatebion ac i gyflwyno eu canfyddiadau i weddill y dosbarth.

**Byddwch yn barod**

Gall llifogydd sydyn ddigwydd fwy neu lai mewn unrhyw ardal. Gall bod yn barod helpu i leihau straen ac osgoi marwolaeth. Mae gan lawer o ardaloedd mewn gwahanol wledydd eu cynlluniau eu hunain o ran yr hyn i'w wneud pan fydd llifogydd yn digwydd ac mae ganddynt drefniadau ar waith i ymarfer eu hymatebion.

Yn India, mae llifogydd o ganlyniad i law monsynau yn cael effaith gynyddol ar ysgolion pentref ger Afon Brahmapatra yn Assam ym mis Mehefin a mis Medi wrth i rewlifoedd doddi yn yr Himalayas. Ar ôl llifogydd dinistriol yn 2004, mae'r gymuned wedi plannu coed er mwyn diogelu adeiladau ac wedi creu llwyfannau uwch er mwyn storio eiddo. Yn yr ysgol, mae'r disgyblion bellach yn ymarfer beth i'w wneud os ceir argyfwng llifogydd, yn dysgu cymorth cyntaf, sut i wneud rafftiau o blanhigion banana, bambŵ a tharpolin a siacedi bywyd o boteli a chaniau petrol. Maent hefyd yn dysgu gan hynafiaid y pentref sut i nodi arwyddion sy'n rhybuddio bod llifogydd ar ddod o batrymau cymylau ac ymddygiad anifeiliaid ac adar.



Pupils from Jungwon Middle School, Seoul

# 4

Gofynnwch i'ch disgyblion ddarganfod a oes gan eich ardal leol gynllun llifogydd mewn argyfwng. Anogwch y disgyblion i greu taflenni neu bosteri yn rhoi gwybod i eraill yn eu cymuned beth i'w wneud os ceir llifogydd er mwyn aros yn ddiogel.

Pan fydd y trychinebau naturiol hyn yn digwydd, mae asiantaethau ac elusennau megis UNICEF ac OXFAM yn rhoi help i'r bobl yr effeithiwyd arnynt. Efallai y gallai eich myfyrwyr drefnu digwyddiad codi arian ar gyfer un o'r sefydliadau hyn, gan dynnu sylw at y gwaith cymorth llifogydd a wnaed.

Mae rhai gwledydd, megis Bangladesh, yn cael llawer o law ar adegau penodol o'r flwyddyn ac mae hyn yn achosi llifogydd. Os bydd tir a ddefnyddir i dyfu cnydau yn dioddef llifogydd yn rheolaidd, gall hyn gyfrannu at brinder bwyd. Mae'r gweithgaredd canlynol o adnodd y Gymdeithas Frenhinol/Dosbarth y Gymanwlad, Global Food Security, yn nodi un ateb i'r broblem, sef cynhyrchu gerddi arnofiol. Rafftiau yw'r gerddi hyn wedi'u gwneud o adnoddau naturiol, hiasinth dŵr fel arfer, pridd a thail gwartheg. Caiff cnydau eu tyfu ar y rafftiau, a fydd wedyn yn arnofio pan geir llifogydd.

**Cyfarpa:**

Bydd angen cyfarpar adeiladu a modelu arnoch, megis:

- poteli diodydd plastig
- hambyrddau bwyd bach
- gwelltau
- llinyn
- cerdyn
- cartonau iogwrt
- deunydd planhigion (e.e. coesynnau)
- pridd
- ffyn lolipop neu ffyn pren tebyg
- siswrn, tâp a glud.

**Cyfarwyddiadau:**

Dyluniwch ac adeiladwch ardd arnofiol fach. Rhaid iddi arnofio ar ddŵr mewn sinc neu bowlen golchi llestri a rhaid gallu tyfu hadau arni. Yn ddelfrydol, dylid gallu ailgylchu'r gerddi pan na fyddant bellach yn ddefnyddiol.

Bydd angen i chi ystyried y canlynol yn eich dyluniad:

- A yw'r deunyddiau ar gael yn hawdd?
- Sut y gallech gael gwared ar y rafft pan na ellir ei ddefnyddio mwyach? A ellir ei ailgylchu neu ei ddefnyddio fel compost?
- Pa faint y dylai fod a pa mor dda y mae'n arnofio?

Gweithgaredd estynedig: Ceisiwch dyfu planhigion ar ben eich gardd arnofiol.

**Gwaith partner**

Os ydych yn gweithio gyda phartner ar y thema hon, gallech wneud y canlynol:

- cyfnewid ffyrdd o warchod dŵr a syniadau ar gyfer archarwyr a stribedi comig
- rhannu eich cerddi siâp
- trefnu digwyddiad ar y cyd i godi arian i elusen
- darganfod pa fesurau sydd ar waith i atal llifogydd yn ardal leol eich ysgol bartner
- cyfnewid ffotograffau o'u gerddi arnofiol.

**Adnoddau defnyddiol ar gyfer y thema hon:**

- mynediad i'r rhyngrwyd a deunyddiau cyfeirio
- copïau o fwrdd stori a cherdd
- deunyddiau gan elusennau a sefydliadau anllywodraethol am y cymorth a roddir i ddioddefwyr llifogydd.

5

# Afon Lygredigt

Yn anffodus, caiff afonydd ledled y byd yn aml eu llygru gan wastraff o gartrefi, diwydiannau, ffermydd a chychod wrth i garthion, sbwriel, cemegau a gwastraff ffatrïoedd gael eu gollwng yn fwriadol neu'n ddamweiniol iddynt. Gall hyn ladd anifeiliaid a phlanhigion a gwneud y dŵr yn rhy frwnt i bobl ei ddefnyddio ymhellach i lawr yr afon.

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Daearyddiaeth, Dinasyddiaeth, Gwyddoniaeth, Cymraeg a Saesneg.

**SGILIAU CRAIDD:**
Cyfathrebu a chydweithio, dinasyddiaeth, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, creadigrwydd a dychymyg, datblygiad personol ac arweinyddiaeth myfyrwyr.

**AMCANION DYSGU:**
Ymchwilio i achosion a chanlyniadau llygredd mewn afonydd a phroblemau sy'n gysylltiedig â gallu cael gafael ar ddŵr glân.

**SGILIAU CRAIDD:**
**DEILLIANNAU DYSGU:**
Ymchwilio i achosion a chanlyniadau llygredd mewn afonydd a phroblemau sy'n gysylltiedig â gallu cael gafael ar ddŵr glân.



Mount Carmel Technology College for Girls, London with Shona Watt and Pete Gomes

# 5

A all eich disgyblion ddod o hyd i straeon newyddion am afonydd yr effeithiwyd arnynt gan lygredd? Trafodwch yr effeithiau y gall hyn eu cael ar bobl a bywyd gwyllt.

Dangoswch rai o'r adrannau ar Afonydd Llygredig o'r adnoddau Addysg Afonydd y Byd i'ch disgyblion: http://thamesfestival.org/education/project/rivers_of_the_world/resources neu glipiau ffilm megis https://www.youtube.com/watch?v=PnrNQO1jBuk er mwyn gweld sut mae llygredd wedi effeithio ar rai o afonydd mawr y byd.

Un ffactor sy'n achosi llygredd mewn rhai gwledydd yw bagiau plastig, sy'n cael eu ffordd i mewn i afonydd. Gofynnwch i'ch disgyblion lunio ymgyrch i leihau nifer y bagiau plastig a gaiff eu defnyddio os yw hyn yn broblem yn eich gwlad chi. Efallai y gallent greu pamffledi yn rhybuddio am y peryglon i fywyd gwyllt, a dylunio a gwneud bagiau y gellir eu hailddefnyddio fel dewis amgen. Gall fod cyfleoedd hefyd i ymgysylltu â sefydliadau lleol sy'n ymgymryd â gwaith cadwraeth gwirfoddol i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol ar eich afon leol.

Mae Dinosaurs and All that Rubbish gan Michael Foreman yn stori amgylcheddol boblogaidd â lluniau sy'n addysgu plant ifanc pa mor bwysig ydyw i ofalu am adnoddau'r Ddaear. Chwiliwch am straeon rhybuddio tebyg eraill o wahanol ddiwylliannau. Gofynnwch i'ch disgyblion gydweithio a llunio eu llyfr lluniau llawn dychymyg eu hunain sy'n rhybuddio am beryglon peidio â gofalu am ein hafonydd ac i rannu'r llyfr hwnnw gyda phlant iau yn yr ysgol.

Pan oedd Ysgol Kokebe Tsibah yn Ethiopia yn gweithio ar eu prosiect Afonydd y Byd, gwnaethant drafod sut y mae pob darn o sbwriel yn eu hafon leol yn dod o law rywun ac yn dweud stori. Gwnaethant drafod sut y gallai'r amrywiaeth o sbwriel gyfuno, adweithio gyda'i gilydd a chreu organebau newydd. Tybed a allai'r 'Bwystfilod Kebena' hyn ddod i'r wyneb a bygwth eu dinas!Er mwyn gwneud eu gwaith celf, defnyddiodd y myfyrwyr ddeunyddiau gwastraff a phaent i greu llawer o 'Fwystfilod Kebena'. Gwnaethant ysgrifennu straeon eu bwystfilod yn Amharic gan ddefnyddio gwahanol liwiau i adlewyrchu'r ffordd y gall yr afon fod yn enfys o liwiau oherwydd llygredd. (Add picture of artwork)

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn datgan bod 780 miliwn o bobl ledled y byd o hyd nad oes dŵr glân ar gael iddynt. Gofynnwch i'ch myfyrwyr ddod o hyd i'r rhesymau dros yr ystadegau hyn ac i ddod o hyd i wybodaeth am waith elusennau a sefydliadau anllywodraethol fel Water Aid, sy'n ymgyrchu i sicrhau dŵr glân ledled y byd.

Yn Uwchgynhadledd Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn 2015, ymrwymodd 193 o arweinwyr y byd i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy (neu NDCau) er mwyn helpu i wneud y byd yn fwy diogel, yn decach ac yn fwy cyfiawn i bawb. Mae 17 o nodau byd-eang gyda thargedau penodol, sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi eithafol, brwydro yn erbyn anghydraddoldeb ac anghyfiawnder a diogelu'r blaned. Nod rhif 6 yw Sicrhau bod dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth ar gael i bawb ac y cânt eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Gofynnwch i'ch disgyblion ddylunio posteri neu greu ffilm fer yn tynnu sylw at bwysigrwydd y nod hwn er mwyn sicrhau bod dŵr glân ar gael i bawb erbyn 2030.



River Anacostia by Adrian Evans

# 5

## Glanhau Dŵr

Cyflwynwch ficer o ddŵr brwnt i'r dosbarth yn cynnwys dŵr, cerrig mân, tywod, brigau, pridd a blwch yn cynnwys yr eitemau canlyno:

- Potel blastig fawr
- Llinyn
- Siswrn
- Graean
- Tywod
- Biceri
- Gwahanol fathau o bapur
- Cadachau
- Twndish
- Bandiau elastig
- Tâp inswleiddio
- Siarcol.

Heriwch y myfyrwyr i weld a allant ddefnyddio'r deunyddiau yn y blwch i wneud y dŵr yn lanach. Rhaid iddynt benderfynu sut i lanhau'r dŵr ac ym mha drefn i gynnal y gweithdrefnau. (Mae'n bosibl y bydd yn edrych yn lanach ond gwnewch yn siŵr na fyddant yn ei yfed!)

A allant ddarganfod o ble y daw eu dŵr yfed a sut y caiff ei lanhau ddigon i'w yfed.

**Gwaith partner**
Os ydych yn gweithio gyda phartner ar y thema hon:

- cyfnewidiwch gopïau o'u straeon i blant, pamffledi, posteri neu ffilmiau
- holwch am eu hymgyrch i leihau llygredd yn eu hafon.

**Adnoddau defnyddiol ar gyfer y thema hon:**

- copi o Dinosaurs and all the Rubbish gan Michael Foreman
- mynediad i'r rhyngrwyd a chamerâu digidol
- jar o ddŵr mwdlyd a deunyddiau i wneud hidlydd.



Pupils from Sinseo Middle School, Seoul

**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth.

**SGILIAU CRAIDD:**
Meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cyfathrebu a chydweithio.


**AMCANION DYSGU:**
Cynnal ymchwiliad i ddulliau hidlo dŵr.

# 5

Yn Ethiopia, datblygodd ysgol Bethlehem sgiliau craidd ym maes meddwl yn feirniadol, creadigrwydd a dinasyddiaeth drwy astudio Afon Kechene ar gyfer eu prosiect Afonydd y Byd. Mae'r afon yn rhedeg drwy'r brifddinas, gan fwydo'r gronfa ddŵr, sy'n cyflenwi Addis ac a gaiff ei llygru gan ddiwydiannau gan gynnwys ffatrïoedd batris a phaent a thanerdai. Ystyriodd y myfyrwyr pa bethau byw y mae'r afon yn eu bwydo a pha broblemau y mae'r llygredd yn eu hachosi. Ar ei thaith, mae'n dyfrhau cnydau llysiau, sy'n cyflenwi marchnadoedd Addis. Roedd y myfyrwyr yn awyddus i fynegi'r syniad bod yr hyn y maent yn ei fwyta yn effeithio ar bobl Addis - sef y ffrwythau a'r llysiau a gaiff eu dyfrhau a'u llygru gan afon Kechene.

Wedi'u hysbrydoli gan yr artist Eidalaidd, Giuseppe Arcimboldo, sy'n paentio portreadau wedi'u gwneud o lysiau, cydweithiodd y myfyrwyr i greu delwedd gynhyrfiol o ddyn sâl o gerfluniau o lysiau wedi'u gwneud o ledr, metel, paent a deunyddiau gwastraff.

Gan fyfyrio ar y prosiect, nododd un myfyriwr, "Dwi'n gwybod nawr na ddylid llygru llysiau a bod yn rhaid i ni ddiogelu ein hafonydd a gofalu amdanynt."



Art work by Bethlehem Secondary School, Addis Ababa, Ethiopia

6

# Diwylliant yr Afon

Mae afonydd bob amser wedi chwarae rhan bwysig yn niwylliant a thraddodiadau'r byd. Roedd yr Eifftiaid Hynafol yn addoli Hapi, duw afon Nile, ac roedd y Groegiaid hynafol yn credu bod pump afon yn amgylchu'r isfyd, Hades. Mae afonydd wedi ysbrydoli nifer o awduron ac artistiaid eithriadol ledled y byd ac maent yn parhau i ddylanwadu ar awduron, artistiaid a meddylwyr yr oes sydd ohoni.



Mayfield School, London with Heather McReynolds and Helen Blejerman

6

# Afonydd dychymyg

Disgrifiodd Prif Weinidog cyntaf India, Jawaharlal Nehru, bwysigrwydd diwylliannol Afon Ganges i bobl India fel a ganlyn:"The river of India, beloved of her people, round which are intertwined her memories, her hopes and fears, her songs of triumph, her victories and her defeats. She has been a symbol of India's age-long culture and civilization, ever changing, ever flowing, and yet ever the same Ganga."

Trefnwch y disgyblion yn grwpiau i ymchwilio i draddodiadau diwylliannol sy'n gysylltiedig ag afonydd o amrywiaeth o wledydd a diwylliannau. Gallai pynciau gynnwys priodasau ac angladdau yn India, rasys cychod dreigiau yn Tsieina, neu gludeiriau wedi'u gorchuddio â chanhwyllau ar gyfer gŵyl Loi Krathong yng Ngwlad Thai. Gofynnwch i bob grŵp greu cyflwyniad neu lyfr dosbarth am eu gwaith ymchwil.

Rhannwch ddetholiad o straeon, caneuon a cherddi am afonydd o wahanol wledydd. Trafodwch y delweddau a ddefnyddiwyd gan awduron i greu darluniau bywiog mewn geiriau a gofynnwch i'r dosbarth ddewis eu hoff linellau sy'n gysylltiedig ag afonydd. Wrth ddechrau eu prosiectau ar Afonydd y Byd, perfformiodd grŵp o athrawon o Fangladesh gân adnabyddus am afonydd Bangladesh o'r enw Ei Padma Ei Meghna.

Gofynnwch i'ch myfyrwyr gyfuno eu hoff ymadroddion a'u hoff ddisgrifiadau â lluniau a lliwiau o gylchgronau i greu brithwaith o eiriau a delweddau sy'n dathlu afonydd mewn llenyddiaeth a diwylliant.

Yng Nghymru, gweithiodd disgyblion gyda'r adroddwr straeon Glyn Scott i ddramateiddio The Journey – stori wreiddiol am sut mae afon yn ffurfio o'i tharddiad i'r môr. Gallwch weld copi o'r stori hon yn Atodiad 5. Gwnaethant greu mygydau ar gyfer y corluniau ac arwynebau'r creigiau a chreu deialog ar ffurf fyrfyfyr. Pan wynebodd y corluniau'r creigiau, gwnaethant wthio eu dwylo ymlaen a churo eu traed, a daliodd y creigiau eu breichiau allan yn herfeiddiol.

**Ysgrifennu creadigol**

Dewch â photel i'r dosbarth gyda neges wedi'i chuddio ynddi. Dywedwch wrth y dosbarth ei bod wedi cael ei golchi i fyny ar lan yr afon a bod neges bwysig ynghudd ynddi. Gofynnwch i'r dosbarth drafod mewn parau pwy a'i hanfonodd a pham.Wedyn, gallent ddefnyddio'r trafodaethau hyn i gynllunio ac ysgrifennu eu straeon dirgelwch eu hunain ar gyfer yr afon.Gellid eu cyfnewid gyda'ch ysgol bartner a gallent hwy greu darluniau ar eu cyfer.

Escola Caranda, Sao Paulo with Paulo Portalle Filho and Renata Abelin



**CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM:**
Cymraeg a Saesneg, Celf a Dylunio, Cerddoriaeth, TGCh.

**SGILIAU CRAIDD:**
creadigrwydd a dychymyg, llythrennedd digidol, cyfathrebu a chydweithio, dinasyddiaeth, arweinyddiaeth myfyrwyr a datblygiad personol.

**AMCANION DYSGU:**
Ymchwilio i arwyddocâd diwylliannol afonydd a chymryd ysbrydoliaeth o waith awduron, beirdd ac artistiaid i greu ymatebion artistig i themâu afonydd y byd.

**AMCANION DYSGU:**
mchwilio i arwyddocâd diwylliannol afonydd ac ystyried themâu afonydd y bydafonydd a chymryd.

# 6

St. Joseph's Boys' College, Derry Londonderry with Debbie Malcomson



Mae llawer o artistiaid o wahanol gyfnodau a diwylliannau wedi creu gwaith sy'n disgrifio afonydd. Os yw'n bosibl, beth am ymweld ag oriel neu wahodd artist lleol i'r ysgol i drafod ei waith.Gallech hefyd ddefnyddio orielau ar-lein megis rhaglen TakeOnePicture yr Oriel Genedlaethol http://www.takeonepicture.org/exhibition/2009/index.html i'w hysbrydoli. Mae'r cynllun hwn yn gwahodd ysgolion i ddefnyddio paentiad o gasgliad yr Oriel fel ysgogiad ar gyfer dysgu ym mhob rhan o'r cwricwlwm.Mae'r darnau sy'n seiliedig ar afonydd megis The Fighting Temeraire gan Turner sy'n dangos llong ryfel enwog yn cael ei thynnu ar hyd afon Tafwys a Bathers at Asnières gan Seurat o ddynion ifanc yn nofio ac yn ymlacio ar lannau afon Seine o ddiddordeb penodol. Anogwch y myfyrwyr i edrych yn ofalus ar y delweddau a'r gwahanol ffyrdd y mae ysgolion wedi eu dehongli.

Gallai eich myfyrwyr ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau megis paentio a thynnu lluniau neu foglynnu metel, argraffu leino a brithwaith wedi'i ailgylchu i greu darnau unigol wedi'u hysbrydoli gan un o themâu Afonydd y Byd. Wedyn, gellir eu huno i greu darnau cydweithredol mawr i'w harddangos fel y rheini yng nghatalog Afonydd y Byd yn:

http://thamesfestival.org/education/project/rivers_of_the_world/catalogues

Anogwch eich myfyrwyr i wrando ar ganeuon a cherddoriaeth sy'n gysylltiedig ag afonydd megis River Moldau gan Smetana neu Water Music gan Handel wrth greu eu darnau creadigol.

## Gwaith Partner

Os ydych yn gweithio gydag ysgol bartner gallech wneud y canlynol:

- cyfweld â'r disgyblion am arwyddocâd diwylliannol eu hafon
- cyfnewid enghreifftiau o straeon a cherddi o bob gwlad
- gwneud gwaith byrfyfyr a ffilmio eich fersiynau eich hunain o The Journey gan Glyn Scott
- cyfnewid ffotograffau o waith celf yn seiliedig ar un o themâu Afonydd y Byd neu greu arddangosfa gelf ar-lein ar y cyd gan y ddwy ysgol
- creu darluniadau ar gyfer straeon a ysgrifennwyd gan eich ysgol bartner.

## Adnoddau defnyddiol ar gyfer y thema hon:

- enghreifftiau o straeon a cherddi am afonydd o bob cwr o'r byd
- mynediad i'r rhyngrwyd a gwaith celf wedi'i ysbrydoli gan afonydd
- paent, brwsys paent, cylchgronau
- cartonau cludfwyd, siswrn, pensiliau, lluniau o fflora a ffawna afon.

Cyfnewidiwch wybodaeth a'r canlyniadau terfynol gyda'ch ysgol bartner os oes gennych un, a helpwch eich myfyrwyr i arddangos eu gwaith mewn arddangosfa yn yr ysgol, ar-lein neu mewn lleoliad arall megis eich llyfrgell leol, neuadd y dref neu oriel.Dylech eu hannog i drefnu'r digwyddiad eu hunain - gan ysgrifennu esboniadau o'r ffordd y cafodd y gwaith celf ei greu, gwneud lluniaeth, creu rhestr chwarae cerddoriaeth a gweithredu fel curadwyr yn y digwyddiad. Gallent hefyd greu cynhyrchion megis cardiau, calendrau neu fatiau llygoden o'u gwaith celf, y gellid eu gwerthu er mwyn codi arian i gefnogi elusennau sy'n helpu dioddefwyr llifogydd.

# Atodiadau

## Atodiad 1

Copïwch i ddarn o gerdyn.

**Torrwch yr eirfa am afonydd a'i gosod gyda'r diffiniadau cywir**

| | |
|---|---|
| tarddiad | Ardal o dir siâp bwa sy'n datblygu pan fydd afon yn cyrraedd y môr |
| erydu | Tir gwastad y naill ochr i afon sy'n cynnwys deunydd a ddyddodwyd |
| dyddodi | Bydd hyn yn digwydd pan fydd afon yn gorlifo dros ei glannau |
| llednentydd | Ceg lydan yr afon lle mae'r dŵr croyw yn cyrraedd y môr |
| ystumio | Y broses pan fydd afon yn treulio tir ac yn cael gwared arno |
| ceg | Dechrau'r afon |
| delta | Nentydd bach sy'n dod at ei gilydd i wneud afon fwy |
| gorlifdir | Mae hyn yn digwydd pan fydd afon yn gollwng y deunydd a gludir ganddi |

# Atodiadau

## Atodiad 2



River Thames by Barry Lewis



River Surma by Shona Watt



River Surma by Shona Watt




River Hooghly by Adrian Evans

# Atodiadau

## Atodiad 3


**Fy Llun o'r Cylch Dŵr gan Beth**



# Atodiadau

## Appendix 4

*Woman's World* gan Barolong Seboni – cerdd o Botswana, sy'n rhan o A River of Stories: Tales and Poems from the Commonwealth (www.ariverofstories.com) c Jan Pienkowski



BOTSWANA

### Woman's World

**By Barolong Seboni**

Silhouetted
against the setting sun
women
ascend
a hilly incline
balancing
barrels on their heads

talking laughing
with hardly a
splash...

the world
rotates
on the axis
of the earth's women

talking laughing
at life
with oceans
balanced
on their heads
without
a

splash...

16

BOTSWANA

# Atodiadau

## Atodiad 5

THE JOURNEY gan Glyn Scott

In the ancient times when the earth was new and still cooking, the heavens did their part. The rains fell, and fell, flooding the earth. The water searched every path to find a place to settle. Some lay down in wide open spaces and like the old woman nestled into the comfort of the valley, thus oceans and seas were created. Some wished to wander like the snake twisting and writhing through the land as rivers. Some chose to hide away and creep deep down into mother earth into the darkness to sleep.

But the heavens continued to open their mighty hands and rage down upon the land. Many rain brothers and sisters crept beneath the earth filling the spaces and wells.

And thus it was that a water sprite found itself forced into the light escaping through mother earth to the land above. The sprite felt lost and lonely. Not knowing this was the start of a journey. **(source)**

"I must go to where my brothers and sisters lie" said the sprite looking down from the mountain; it saw there in the distance a vast expanse of water, blue and sparkling, as if beckoning the sprite to join its rolling mass.

The sprite felt enticed and smiled. The journey would be daunting but

"It will be a great adventure".

Jumping onto the land the sprite began to race down the steep sides of the mountain, cutting a path through the land and occasionally falling free from the high cliff to land far below into the soft wet earth. **(Waterfall)** Resting only for a moment the sprite continued on until the path ahead drew to a dark foreboding place with high walls on both sides. The sprite became afraid. It was cold, and the sprite began to shiver and found its path blocked.

"Who goes there and disturbs my slumber?" asked the wall of rock unmoving in front of the sprite.

"I must continue on to my brothers and sisters" said the sprite "please let me pass"

But the rock was cold and hard and had no heart. The sprite could go no further and circled around and around for many days.

It was early one morning when a voice behind the sprite seemed familiar, "I seek to join my brothers and sisters too" The fellow sprite was bigger and stronger than the little sprite. Soon they were joined by another sprite **(tributaries)**

"Together we may defeat the heartless rock" and the friends set about their task of passing the great boulder. They used the steep drop to help them race towards the boulder. A great battle ensued for many years and eventually the rock gave way and the friends raced onwards **(erosion)**

Tired from their great fight the friends sought a gentler path. They began to twist and turn like the snake **(meander)** "We must not rest" said the little sprite "we must journey on to the ocean, it is our quest" So the friends found a steeper path. They raced over cliff tops and raged loudly as they passed. **(Even bigger waterfalls and rapids)**

They continued on at the speed of the wind in their steep descent. The way narrowed as once again the walls of a great canyon ran bedside them. As they turned a corner a high rock face, darker and more foreboding than the previous wall confronted them. The sprites asked the wall to part and let them pass.

"Never" said the wall "You will not pass, be gone"

The sprites attacked as they had before but there was no breaking the wall. They were joined by many more sprites but fight as they might the rock stood firm. They settled down and swirled around and around wondering how they could reach the mighty ocean.

"Why do we not go around the great wall where the rock is softer" said the sprite and so they bent and twisted their way continuing on their journey. The friends were now mighty in number and spread out wide across the flattening land. **(floodplain)**

"We are so tired after our hard journey, let us slow down and meander along enjoying the countryside watering the precious land of mother earth and feeding the great trees to make them tall and strong" They gently cut their way through the soft earth creating a long and winding path.

Soon they could see the ocean swirling and beckoning them on. As they got closer to their goal the friends spread out and like fingers grasping and stretching, they spread across the land like a giant fan opening out against the strong rays of the sun.**(delta)**

The small sprite remembered how it had started its journey and looked back at the mountain and the hard path they had created.

"My journey is over, I must join my brothers and sisters to journey far and wide across the world" "Let others come after me and forge their own path."**(mouth)**

And so it was and forever will be that water sprites across the world journey to the sea providing support and God given water to feed the lands and support for the peoples of those lands, providing homes for those who wish to live and work upon the water.

# Rhagor o wybodaeth

Gobeithio eich bod wedi mwynhau defnyddio'r deunyddiau yn y pecyn hwn. Mae'r adnoddau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol a allai eich helpu i gynllunio eich prosiectau cwricwlaidd.

- Mae gwefan Thames Festival yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau am afonydd: http://totallythames.org/education/project/rivers_of_the_world/resources
- Mae'r ddolen hon yn cynnwys pecynnau gwybodaeth am 19 o afonydd mawr y byd
- Mae www.britishcouncil.org/schoolsonline yn cynnwys gwybodaeth am nifer o brosiectau cwricwlaidd ar y cyd y gellir ymgymryd â hwy gyda'ch ysgol bartner
- http://nationalgeographic.org/encyclopedia/ Mae'r wefan hon gan y National Geographic yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth am afonydd
- https://schoolsonline.britishcouncil.org/develop-your-skills/professional-development-courses/teaching-the-core-skills Dyma ddolen i themâu, sgiliau a rhagolygon Dinasyddiaeth Fyd-eang Connecting Classrooms y British Council
- Mae https://www.teachingchannel.org/videos/high-performance-in-science yn dangos ysgol yn y Ffindir yn addysgu'r broses o ddyrannu pysgod fel rhan o gyfres o wersi am ecosystemau afonydd
- Mae http://www.ariverofstories.com/ yn cynnwys gwybodaeth am 'A River of Stories – tales and poems from the Commonwealth' a deunyddiau cwricwlaidd cysylltiedig eraill
- www.unicef.org
- Mae gan gymdeithas http://geographical.co.uk/ nifer o astudiaethau achos ac adnoddau sy'n gysylltiedig ag afonydd
- Ofsted (2011) Geography learning to make a world of difference yw'r adroddiad arolygu diweddaraf gan arolygwyr yn y DU am addysgu Daearyddiaeth
- Gellir gweld mapiau o wahanol leoedd yn y DU yma https://www.ordnancesurvey.co.uk/opendata/viewer/
- Mae http://www.thames-explorer.org.uk/ yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth i'ch helpu i archwilio afonydd
- http://www.wateraid.org/ukMae WaterAid yn gweithio mewn 27 o wledydd ledled y byd, gan drawsnewid miliynau o fywydau bob blwyddyn drwy brosiectau dŵr, carthffosiaeth a hylendid diogel. http://www.wateraid.org/uk/~/media/Files/UK/Schools/secondarytheworkofwateraid.ashx
- Mae Teaching Geography Creatively a olygwyd gan Stephen Scoffham yn cynnwys amrywiaeth o syniadau ymarferol i ysbrydoli dulliau creadigol o addysgu Daearyddiaeth
- Mae http://www.bbc.co.uk/schools/riversandcoasts/water_cycle/rivers/index.shtml yn cynnwys gwybodaeth am afonydd a'r cylch dŵr.

**Mae enghreifftiau o straeon a cherddi sy'n dathlu afonydd yn cynnwys y canlynol:**

- *Composed Upon Westminster Bridge William Wordsworth*
- *A River of Stories Tales and Poems from the Commonwealth casglwyd ynghyd gan Alice Curry*
- *Rivers gan Valerie Bloom*
- *The adventures of Tom Sawyer and Huckleberry Fin gan Mark Twain*
- *Just So Stories gan Rudyard Kipling*
- *Journey to the River Sea Eva Ibbotson*
- *Our Mutual Friend, David Copperfield a Great Expectations gan Charles Dickensdisgrifiadau*
- *Tales of the River Bank – Kenneth Graham*

Mae London Labour and the London Poor gan Henry Mayhew yn cynnwys cyfweliadau gyda thlodion a oedd yn byw yn Lloegr yn Oes Fictoria, gan gynnwys plant a oedd yn gweithio fel slotwyr bach yn yr afon.

Dinosaurs and All That Rubbish gan Michael Foreman.

**Mae paentiadau enwog o afonydd yn cynnwys y canlynol:**

- *Starry Night on the Rhone gan Van Gogh*
- *Charing Cross Bridge gan Monet*
- *Bathers at Asnières gan Seurat*
- *The City Seen Through the Arch of Westminster Bridge gan Canaletto.*

http://environment.nationalgeographic.com/environment/freshwater/water-conservation-tips/ Cyngor arbed dŵr gan National Geographic.

# rivers of the world



Rivers of the World Education Pack produced by Alison Willmott
Rivers of the World is a Thames Festival project
delivered in partnership with the British Council

BRITISH COUNCIL

thames festival trust

Thames Mirror by Mat and Pat